Hawdd ei Ddeall

National Centre for Social Research

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymchwil i wneud cwestiynau arolwg newydd gan ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd

## Dyma adroddiad terfynol ar beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Mawrth 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Hawdd ei Ddeall

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad terfynol.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 25**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl y **Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol**.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** EqualityEvidenceUnit@gov.wales

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddarllen gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded  Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am yr adroddiad yma** ..... **4**

**Beth wnaethon ni** ..... **8**

**Profi** ..... **12**

**Profi gyda mwy o bobl** ..... **15**

**Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud nesaf** ..... **20**

**Geiriau anodd** ..... **25**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol: 978-1-83745-324-5

# Am yr adroddiad yma



Mae Llywodraeth Cymru eisiau newid sut mae'n casglu gwybodaeth am bobl anabl.


Ni ydy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol.





Yn 2024 gofynnodd Llywodraeth Cymru inni lunio a phrofi cwestiynau arolwg newydd. Roedd angen i'r cwestiynau yma ddefnyddio'r **model cymdeithasol** o anabledd.



Mae'r **model cymdeithasol** o anabledd yn ffordd o feddwl am anabledd.



Mae'n dweud nad ydy person yn anabl oherwydd ei amhariad neu ei gyflwr iechyd.




Mae pobl yn anabl gan bethau o'u cwmpas sy'n gwneud bywyd yn anoddach. Mae'r rhain yn gallu bod yn adeiladau, gwasanaethau, neu agweddau pobl.



Mae'r model cymdeithasol yn dweud y dylai'r byd newid i ateb anghenion pobl.



Mae cwestiynau eraill i gasglu gwybodaeth yn defnyddio’r **model meddygol** o anabledd.



Mae’r **model meddygol** o anabledd yn gweld anabledd fel gwahaniaeth mae angen ei drwsio neu ei wella.



Fe wnaethon ni wneud ymchwil. Fe wnaethon ni ofyn i bobl anabl pa gwestiynau maen nhw eisiau eu gweld am anabledd.



Fe wnaethon ni hefyd edrych ar yr hyn sy’n bwysig i bobl sy’n defnyddio gwybodaeth am anabledd. Fel, ymchwilwyr ac elusennau.





Rydych chi'n gallu darllen am rannau cynharach ein gwaith yma: [llyw.cymru/model-cymdeithasol-o-anabledd](llyw.cymru/model-cymdeithasol-o-anabledd)




Daeth rhan gyntaf ein hymchwil i ben yn 2025. Fe wnaethon ni ddarganfod bod angen 2 gwestiwn newydd.



Yna fe wnaethom greu a phrofi'r 2 gwestiwn newydd.




Mae'r adroddiad yma am beth wnaethon ni a beth wnaethon ni ddarganfod.

# Beth wnaethon ni




Rydyn ni'n gwneud cwestiynau arolwg newydd gan ddefnyddio dysgu o ymchwil y llynedd.




Roedd rhaid gwneud y cwestiynau fel bod pawb yn cael eu cynnwys a gallu cymryd rhan.

Mae angen i'r cwestiynau hefyd fod ar gael yn:




- Saesneg
- Cymraeg
- Iaith Arwyddion Prydain
- Hawdd ei Ddeall

# Cwestiynau am amhariad




Fe wnaethon ni 2 fersiwn o gwestiwn am **amhariad**.



Mae **amhariad** yn meddwl gwahaniaeth yn y ffordd mae meddwl neu gorff person yn gweithio. Er enghraifft, mae hyn yn gallu bod oherwydd cyflwr iechyd.



**Fersiwn 1:**

- Fe wnaethon ni newidiadau llai.



- Fe wnaethon ni ei wneud i gynnwys mwy o bobl.



- Roedd pobl yn llenwi eu hatebion eu hunain.

**Fersiwn 2:**



- Fe wnaethon ni newidiadau mwy.



- Fe wnaethon ni newid sut mae **amhariad** yn cael ei ddisgrifio.




- Fe wnaethon ni gynnwys cyflyrau sydd ddim yn effeithio ar rywun trwy'r amser.



Fe wnaethon ni hefyd siarad â phobl am y cwestiynau.

# Cwestiynau am rwystrau




Fe wnaethon ni 2 fersiwn o gwestiwn am **rwystrau**.



Mae **rhwystrau** yn bethau sy'n stopio pobl anabl rhag gwneud pethau. Er enghraifft, adeiladau heb rampiau neu wybodaeth sydd ddim yn Hawdd ei Ddeall.

**Fersiwn 1:**



Roedd hyn yn cynnwys **rhwystrau** mewn bywyd. Er enghraifft, gofal iechyd, gwaith a thrafnidiaeth.

**Fersiwn 2:**



Mae hyn yn cynnwys **rhwystrau** mewn meysydd bywyd. Er enghraifft, agweddau pobl a gwahanol ffyrdd mae pobl yn cyfathrebu.

# Profi

## Rhan gyntaf y profi



Fe wnaeth dwy fersiwn o bob cwestiwn gael eu profi. Roedd oedolion, a rhieni plant anabl wedi cymryd rhan.



Gofynnwyd iddyn nhw beth roedden nhw'n feddwl am y cwestiynau. Roedden nhw'n rhannu unrhyw broblemau oedd ganddyn nhw.



Fe wnaethon ni hefyd brofi cwestiynau Iaith Arwyddion Prydain a Hawdd ei Ddeall gyda phobl. Ond roedd y profion yma gyda llai o bobl.

# Beth wnaethon ni ei ddarganfod

## Cwestiynau amhariad



Doedd dim gwahaniaeth clir rhwng y 2 fersiwn. Roedd pobl yn hoffi gwahanol rannau o'r ddwy fersiwn.



Roedd pobl yn hoffi opsiynau syml a chlir. Dywedodd pobl bod fersiwn 2 yn teimlo'n haws i'w ateb.



Yn y fersiynau Iaith Arwyddion Prydain, roedd gan bobl broblemau gyda'r ddwy fersiwn.

## Cwestiynau rhwystr



Roedd pobl yn deall y ddwy fersiwn. Ond roedden nhw'n meddwl bod angen newid rhai pethau.



Dywedodd pobl bod gan fersiwn 1 ormod o eiriau ac roedd fersiwn 2 yn ddryslyd.



Roedd pobl yn hoffi'r fersiwn Hawdd ei Ddeall. Ond dywedodd rhai bod gormod o eiriau ac opsiynau ateb. Dywedodd pobl hefyd y dylai delweddau fod yn gliriach.



Yn Iaith Arwyddion Prydain, dywedodd pobl bod y ddwy fersiwn yn anodd eu deall a'u hateb.

# Profi gyda mwy o bobl



Fe wnaethon ni rai newidiadau i’r cwestiynau yn gyntaf gan ddefnyddio canlyniadau ymchwil a phrofi.



Yna fe wnaethon ni fwy o brofi gyda phobl gan gynnwys oedolion anabl.



Dydyn ni ddim yn gallu cynnwys Hawdd ei Ddeall neu Iaith Aryddion Prydain.




Fe wnaethon ni ofyn i dros 4000 o bobl am adborth. Atebodd ychydig dros hanner ohonyn nhw.



Fe wnaethon ni gynnal ychydig dros 2500 o gyfweliadau.

# Beth wnaethon ni ei ddarganfod

## Cwestiynau amhariad




Fersiwn 1 ydy'r cwestiwn amhariad safonol sydd yn cael ei ddefnyddio  wrth gasglu gwybodaeth. Mae fersiwn 2 wedi cael ei wneud gyda'r rhannau gorau o'r 2 fersiwn o ran cyntaf y profi.



**Gan ddefnyddio fersiwn 1:**

Dywedodd dros 3 o bob 10 o bobl bod ganddyn nhw 1 neu fwy o **amhariad.**




**Defnyddio fersiwn 2:**

Dywedodd bron i 6 o bob 10 o bobl bod ganddyn nhw 1 **amhariad** neu fwy.



Roedd cyflyrau iechyd meddwl yn cael eu henwi amlaf yn y ddwy fersiwn.

# Cwestiynau am rwystrau




Fe wnaethon ni gynnwys y 2 fersiwn o'r **cwestiwn rhwystrau** eto.



Fe wnaeth y fersiynau gael eu newid ychydig cyn cael eu profi eto. Roedd y newidiadau wedi eu seilio ar beth oedd wedi cael ei ddysgu o'r blaen.



Fe wnaeth pobl ag **amhariadau** adrodd am fwy o **rwystrau** na'r rhai heb **amhariadau**.



Roedd pobl yn dweud mai agweddau oedd y math mwyaf cyffredin o **rwystr**.




Mewn bywyd, roedd y **rhwystrau** mwyaf cyffredin mewn gofal iechyd a mannau cyhoeddus.



Fe wnaethon ni weld bod rhoi opsiynau i bobl ddewis ohonyn nhw yn eu helpu i ateb yn haws.

# Mesur faint o bobl sy'n anabl




Fe wnaethon ni ddefnyddio 3 ffordd wahanol i ddarganfod faint o bobl sy'n anabl. Fe wnaeth un ddefnyddio'r **model meddygol**. Fe wnaeth 2 ddefnyddio'r **model cymdeithasol**.



Fe wnaeth nifer ychydig uwch o bobl anabl gael eu hadrodd wrth ddefnyddio'r **model meddygol.**




Mae hyn yn dangos bod sut mae cwestiynau yn cael eu geirio yn effeithio ar sut mae pobl yn ateb.

# Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud nesaf

## Cwestiwn amhariad




Fe ddylai Llywodraeth Cymru ddefnydio'r cwestiwn am **amhariad** gan ddefnyddio'r **model cymdeithasol** mewn arolygon yn y dyfodol.



Fe ddylen nhw adolygu'r cwestiwn yma yn y dyfodol. Fe fydd hyn yn edrych i weld oes angen mwy o waith.



Mae angen iddyn nhw wneud mwy o waith ar y fersiwn Iaith Arwyddion Prydain.

## Cwestiwn rhwystr




Roedd y 2 fersiwn o'r cwestiynau **rhwystr** yn gweithio. Felly, fe ddylai Llywodraeth Cymru barhau i ddefnyddio a phrofi'r ddwy fersiwn.

Mae angen iddyn nhw wneud mwy o brofi i edrych ar:



- Os ydy newid fformat y cwestiynau yn helpu mwy o bobl i ateb.



- Gwneud cwestiynau'r rhiant yn gliriach.

# Syniadau eraill

## Fersiwn rhiant



Mae angen mwy o brofi gyda rhieni.




Mae rhieni wedi gofyn am ragor o wybodaeth am beth i'w wneud os oes ganddyn nhw fwy nag 1 plentyn anabl. Er enghraifft, pa blentyn maen nhw'n siarad amdano wrth ateb y cwestiwn.

## Fersiwn plentyn



Fe ddylid gwneud cwestiynau ar gyfer plant anabl.



Fe ddylid profi'r cwestiynau yma wedyn.



## Fersiwn Iaith Arwyddion Prydain

Mae angen mwy o brofi gyda mwy o bobl.

## Fersiwn Hawdd ei Ddeall



Mae angen edrych ar y delweddau.




Mae angen mwy o brofi ar y geiriau.



Fe ddylai opsiynau ateb fod yn gliriach.



Fe ddylai mwy o bobl brofi'r cwestiynau.

## Casglu gwybodaeth



Mae angen mwy o gyfweliadau wyneb yn wyneb.




Fe ddylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau profi yn y dyfodol.




Fe ddylen nhw roi arweiniad clir i bobl sy’n gwneud arolygon.

# Geiriau anodd

## Amhariad

Mae amhariad yn meddwl gwahaniaeth yn y ffordd mae meddwl neu gorff person yn gweithio. Er enghraifft, mae hyn yn gallu bod oherwydd cyflwr iechyd.

## Model meddygol

Mae'r model meddygol o anabledd yn gweld anabledd fel gwahaniaeth mae angen ei drwsio neu ei wella.

## Model cymdeithasol

Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn ffordd o feddwl am anabledd.

Mae'n dweud nad ydy person yn anabl oherwydd ei amhariad neu ei gyflwr iechyd.

Mae pobl yn anabl gan bethau o'u cwmpas sy'n gwneud bywyd yn anoddach. Mae'r rhain yn gallu bod yn adeiladau, gwasanaethau, neu agweddau pobl.

Mae'r model cymdeithasol yn dweud y dylai'r byd newid i ateb anghenion pobl.

## Rhwystrau

Mae rhwystrau yn bethau sy'n stopio pobl anabl rhag gwneud pethau. Er enghraifft, adeiladau heb rampiau neu wybodaeth sydd ddim yn Hawdd ei Ddeall.